Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 17 Gorffennaf 2024, am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Miss C. L. Williams (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, A. R. James, K. R. Jones (tan 7.00pm yn ystod eitem rhif 39), Mrs D. L. King (tan 6.50pm yn ystod eitem rhif 38), Ms J. L. McAlpine, B. Mellor (o 6.25pm tan 6.30pm yn ystod eitem rhif 37), Ms R. Roberts, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 35. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, S. Feeney a Miss S. Fleming.

## 36. DATGAN SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED YN WARD TRELLEWELYN, Y RHYL

Cyhoeddodd Clerc y Dref yn ffurfiol fod sedd wag i Gynghorydd Cymuned yn Ward Trellewelyn, ac y byddai'n trosglwyddo hyn i adran Etholiadau Cyngor Sir Ddinbych i ymdrin â hyn yn y modd arferol.

## 37. CYFLWYNIAD: Y CYNLLUN TYMOR HIR AR GYFER TREFI A BWRDD TREF Y RHYL

Croesawodd y Maer ddau siaradwr i'r cyfarfod, sef Ms Liz Greave, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol, Perfformiad, Digidol ac Asedau, Cyngor Sir Ddinbych, a Mr Adam Roche, Cadeirydd Bwrdd Tref y Rhyl, a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau.

Cynghorodd Ms Greave:

- Bod y fenter y Cynllun Tymor Hir ar gyfer Trefi wedi'i lansio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Medi 2023, fel rhan o'r rhaglen Ffyniant Bro, i adnabod a mynd i'r afael â materion adfywio tymor hir.

- Bydd £20 miliwn yn cael ei wario ar y Rhyl yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Mwy o wariant cyfalaf na gwariant refeniw.

- Ym mis Mawrth 2024 cyhoeddwyd yn y Gyllideb fod y Rhyl yn un o'r ail set o drefi i'w cynnwys yn y fenter.

- Rhoddwyd cyfrifoldebau i Gyngor Sir Ddinbych ar unwaith, yn cynnwys:

  - sefydlu Bwrdd, rhoi cymorth i'r Bwrdd lunio gweledigaeth a strategaeth 10 mlynedd a rheoli'r cyllid.

- cyflwyno manylion bywgraffiadol am y Cadeirydd, strwythur y Bwrdd, cylch gwaith y Bwrdd, y Polisi Gwrthdaro Buddiannau a ffurflen Ffiniau'r Dref erbyn 1 Mehefin 2024.

- Er y byddai llywodraethu'r fenter yn swyddogaeth y Cyngor Sir, mae'n glir iawn y dylai'r weledigaeth gael ei llunio dan arweiniad y gymuned ac felly dylai'r Bwrdd gynnwys cynrychiolaeth eang o'r gymuned, ac ni ddylai'r Cadeirydd fod yn wleidydd.

- Sefydlwyd y Bwrdd ac mae'n cynnwys 17 aelod.

- Mae'n rhaid i'r Weledigaeth a'r Strategaeth ganolbwyntio ar dair thema, sef Diogelwch a Diogeledd, Adfywio a Threftadaeth y Stryd Fawr a Chludiant a Chysylltedd.

- Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 29 Gorffennaf ac mae gweithredoedd amrywiol yn ofynnol erbyn 1 Tachwedd 2024, fel cytuno ar y dull llywodraethu, datblygu'r Weledigaeth 10 Mlynedd a'r cynllun cyflawni ar gyfer y tair blynedd gyntaf.

- Cyflwynwyd yr holl wybodaeth a'r dogfennau a oedd yn ofynnol ar ddechrau mis Mehefin, ond ers hynny ac o ganlyniad i'r Etholiad Cyffredinol, rydym ni'n delio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig wahanol, gyda Gweinidog newydd sy'n meddu ar deitl newydd. Nid yw'r hyn a gyflwynwyd wedi'i gytuno a'i lofnodi gan y llywodraeth, felly nid ydym wedi derbyn yr ail swm o gyllid i alluogi'r Bwrdd i wneud y gwaith nesaf.

- Y sefyllfa orau fyddai bod y Gweinidog newydd yn llofnodi'r dogfennau a gyflwynwyd a'n bod yn derbyn y cyllid ac yn bwrw ymlaen.

- Y sefyllfa waethaf fyddai bod Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn penderfynu nad yw am barhau â'r fenter.

Cyflwynodd Mr Roche ei hun i'r aelodau fel un wedi'i eni a'i fagu yn y Rhyl, ac un sydd wedi byw yn y dref erioed. Gweithiodd i gwmni'r Co-op am 35 mlynedd ac, yn bwysicach, ym maes newid trawsnewidiol am y 15 mlynedd diwethaf.

Mae'n Bennaeth Portffolio Newid y Co-op ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 160 o brosiectau gyda chyllideb o fwy na £100 miliwn.

Bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr gwirfoddol Clwb Pêl-droed y Rhyl am y pedair blynedd ddiwethaf hefyd - swydd mae wrth ei fodd yn ei chyflawni. Bellach mae gan y Clwb fwy na 200 o chwaraewyr gyda 60% ohonynt yn ferched, sy'n rhywbeth mae'n hynod falch ohono.

Mae'n briod â Hayley ac mae ganddo ddau blentyn sy'n oedolion, ac mae'n hynod falch o'r tri ohonynt.

Mae'n gobeithio rhoi cyflwyniad clir a dealltwriaeth glir o'r hyn y sefydlwyd y Bwrdd i'w wneud a'i gyflawni'n gyflym, gan symud ymlaen i benderfynu ar gryfderau a'r cyfleoedd i'r Bwrdd a nodi pa sgiliau fydd angen i'r Bwrdd eu datblygu er mwyn cyflawni'r gwaith.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol a theimlai fod hynny'n rhan o'i swydd fel Cadeirydd i wneud yn siwr fod yr elfen hon wrth graidd y prosiect.

Ychwanegodd Mr Roche ei fod eisiau cael enillion sydyn o'r dechrau, unwaith y byddai'r data wedi'i ddadansoddi, a fyddai'n cynorthwyo i gael pobl i gefnogi'r Bwrdd, sy'n hanfodol bwysig. Roedd yn dymuno mynd â phobl leol gyda nhw ar y daith hon.

Yn olaf, dywedodd ei fod yn llawn cyffro am fod yn Gadeirydd a'r cyfle i fod yn rhan o fenter gadarnhaol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Ms Greave a Mr Roche:

- Bod y Bwrdd yn hollol annibynnol ac mai'r Bwrdd oedd y corff gwneud penderfyniadau, nid Cyngor Sir Ddinbych.

- Fel Cadeirydd y Bwrdd roedd Mr Roche yn glir nad oedd wedi ymgymryd â'r swydd i fod yn un o gyflogeion Cyngor Sir Ddinbych nac i gytuno gyda barn neu ddymuniadau Cyngor Sir Ddinbych. Petai'n datblygu i fod felly byddai'n ymddiswyddo o fod yn Gadeirydd.

- Nad oeddynt yn gweld unrhyw beth o'i le gyda dogfen Cynllun y Dref a luniwyd gan y Cyngor Tref yn cael ei dwyn i sylw'r Bwrdd.

- Mai'r disgwyliad oedd y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eithaf hyblyg ynghylch cario cyllid trosodd o un gyfran i'r nesaf.

- Y gellid defnyddio'r symiau cyllid a ddyrannwyd i brosiectau i ddenu symiau cyllid eraill o ffynonellau eraill i wella neu barhau'r prosiectau. Mae hyn yn rhywbeth mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn awyddus iawn i'w annog.

Diolchodd y Maer i Ms Greave a Mr Roche am ddod i'r cyfarfod.

## 38. CYFLWYNIAD: PARC POCED Y RHYL

Croesawodd y Maer Mr James Evans, Rheolwr Economaidd a Datblygu Busnes, Cyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod a'i wahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau.

Esboniodd Mr Evans, yn dilyn nifer o ymdrechion i weithio gyda pherchnogion yr adeiladau sy'n edrych yn fler iawn yn 123 i 125 y Stryd Fawr, nid oedd unrhyw un o'r cynigion yn dilyn dymchwel yr adeiladau yn hyfyw i'r perchnogion, felly roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu'r ddau adeilad i'w dymchwel.

Y cynnig oedd creu 'Parc Poced' wrth y porth i'r dref yn y gwagle a fyddai'n cael ei adael ar ôl dymchwel yr adeiladau.

Mae'r cynnig wedi'i gymeradwyo gan holl grwpiau a phwyllgorau angenrheidiol y Cyngor Sir, ac roedd Cynghorwyr Sir y Ward yn fodlon â'r prosiect hefyd.

Yn dilyn gwneud gwaith dichonoldeb, llwyddodd y prosiect i sicrhau £950,000 gan gynllun Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda'r gobaith y byddai'r Llywodraeth newydd yn anrhydeddu hynny, er mwyn galluogi bwrw ymlaen gyda'r prosiect.

Roedd rhaid i ddyluniad y cysyniad:

- ddefnyddio'r deunyddiau cytunedig fel y nodwyd yn y ddogfen Canllaw Dylunio'r Rhyl.

- ystyried fod y gwagle yn rhan o Ardal Gadwraeth.

- fod yn un ansawdd uchel gyda gofynion cynnal a chadw isel.

- gynnwys coed a blodau gwyllt.

- adlewyrchu estheteg y neuadd bingo steil Art Deco o'r 1930au gyferbyn, drwy gyflwyno cromlinau yn y dyluniad.

- dangos y talcen gwreiddiol gyda llythrennau'r hen hysbyseb.

Dangosodd Mr Evans ddelweddau'r dyluniad dechreuol, yn cynnwys mannau gwyrdd, seddi a goleuadau y gellid eu cyflwyno i lunio dyluniad manylach.

Byddai'r cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Craffu ar Brosiectau Cyfalaf ddiwedd mis Gorffennaf, am gymeradwyaeth. Yna'r gobaith oedd y byddai'n cael ei gytuno a'i lofnodi gan Lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig, cyn dechrau ar y gwaith dylunio manylach.

Yna bwriedir ymgynghori â'r cyhoedd a'u hysbysu am y cynlluniau arfaethedig a chael yr holl ganiatâd statudol gofynnol cyn dymchwel yr ail adeilad. Byddai'r gwaith dymchwel yn digwydd y tu allan i'r tymor twristiaid.

Roedd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig wedi dymuno gweld y prosiect yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2026.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau, dywedodd Mr Evans:

- bod y swyddog dylunio yn erbyn troseddu yn hapus gyda'r dyluniad ac nad oedd wedi nodi unrhyw beth a oedd yn peri pryder.

- mae'r ardal yn cael ei chwmpasu gan Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Agored y dref, felly bydd yr Heddlu yn medru gweithredu os oes unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Bydd talcen yr adeilad yn cael ei gadw a'i warchod nawr ei fod yn agored i elfennau'r tywydd. Roedd yn amau y byddai hyn yn un o ofynion Cadw hefyd.

Diolchodd y Maer i Mr Evans am ei amser cyn iddo adael y cyfarfod.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau a oeddynt o'r farn y byddai'n werth ystyried cael coeden Nadolig fyw yn y parc a thrafod hynny gyda Chyngor Sir Ddinbych, yn ogystal â'r goeden a osodir yn y Stryd Fawr bob blwyddyn?

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn trafod y syniad o gael coeden Nadolig fyw yn y Parc Poced.*

## 39. COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn o gyfarfod y Cyngor a chyfarfodydd pwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 19 Mehefin 2024 - Cofnodion rhifau 21-34

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 19 Mehefin 2024 - Cofnodion rhifau 4-6

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gais rhif 45/2024/1019 a chynghorodd fod y datblygwr wedi cysylltu â'r swyddfa ac wedi cael ymateb ar ran y Cyngor Tref, cyn cael ei gyfeirio at Gyngor Sir Ddinbych.

Y Pwyllgor Cynllunio - 3 Gorffennaf 2024 - Cofnodion rhifau 7-9

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 3 Gorffennaf 2024 - Cofnodion rhifau 16-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir a chadarnhawyd eu gweithredu.*

Yng nghyswllt cofnod rhif 20 (Ymgynghori: Cyngor Sir Ddinbych – Cyfarfod ymgynghori ynghylch y Gyllideb) adroddodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ei fod ef a Chlerc y Dref wedi mynychu'r cyfarfod ar-lein, a dywedodd fod y sefyllfa ariannol wedi'i amlinellu ond ni rannwyd unrhyw fanylion penodol ynghylch cynigion yn y dyfodol. Roedd pwyslais go iawn ar ailsefydlu'r berthynas gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned a chydnabyddiaeth o'u gwerth a'u rôl yn y dyfodol.

## 40. ADRODDIAD Y MAER

Cyflwynodd y Maer fanylion digwyddiadau y bu ynddynt yn ystod y mis diwethaf, gan gyfeirio'n benodol at y daith ar yr afon a drefnwyd gan Gyngor Tref Conwy a oedd yn wych, a diolchodd i'r Cynghorwyr K. Jones, Mrs D. L. King a Ms J. L. McAlpine am fynd i Garnifal y Rhyl a beirniadu'r cerbydau a Brenhines y Carnifal yn ei habsenoldeb.

Dywedodd y Dirrwy Faer fod yr un digwyddiad yr oedd yn bwriadu mynd iddo, Gwasanaeth Dinesig Cyngor Tref Abergele, wedi'i ganslo.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 41. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWYO (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddogfen Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

Cyfeiriodd Clerc y Dref at daliad ychwanegol nad oedd wedi'i gynnwys yn yr atodlen a ddosbarthwyd i'r aelodau, sef taliad i'r Cynghorydd Miss C. L. Williams, yn unol â'r manylion a nodir isod.

| Taleb rhif | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1866 | Racecraft Signs | Diweddaru'r hysbysfwrdd Anrhydeddau | 162.00 |
| 1870 | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i ddau gynrychiolydd yn dilyn y cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2024 | 44.00 |
| 1871 | Amazon UK | Archeb nwyddau swyddfa | 252.98 |
| | Cyng. C. L. Williams | Treuliau'r Dirprwy Faer, mis Ebrill a Mai 2024 a threuliau'r Maer, mis Mai i fis Gorffennaf 2024 | 157.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£615.98** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i wneud y taliadau a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 42. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2024/25: CHWARTER 1 EBRILL – MEHEFIN 2024

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei nodi. Ychwanegodd, oherwydd diwydrwydd dyladwy'r Swyddog Cyllid, roeddynt yn rhagfynegi y byddai'r llog yn £5,500 yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, petai'r gyfradd llog gyfredol yn parhau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 43. <u>STRATEGAETH BUDDSODDIADAU BLYNYDDOL 2024/25 – ADOLYGU'R STRATEGAETH A'R ADNEUON GYDA HSBC</u>

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad ar y cyd ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am awdurdod yr aelodau i ddiwygio'r strategaeth gyfredol i ganiatáu i swyddogion fuddsoddi yn yr HSBC Money Market am gyfnod hirach (o saith diwrnod i un mis) er mwyn derbyn cyfradd llog uwch.

Yn ychwanegol, i ailfuddsoddi'r swm o £85,000 wedi'i adneuo gyda HSBC sy'n aeddfedu ar 8 Awst 2024 am gyfnod o chwe mis arall.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2024/25.*

## 44. <u>GOHEBIAETH: PWYLLGOR CARNIFAL Y RHYL</u>

Dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn neges e-bost gan y Pwyllgor uchod (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gwahodd cynghorwyr i fod yn rhan o a chefnogi'r digwyddiad blynyddol.

Dywedodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine fod y Cynghorydd K. R. Jones (a oedd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn anffodus oherwydd cysylltiad rhyngrwyd gwael) yn awyddus i ymwneud â'r Carnifal fel rhan o'i swyddogaeth fel Hyrwyddwr Ieuenctid y Cyngor Tref.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *penodi'r Cynghorydd K. R. Jones i fynd i gyfarfod y pwyllgor trefnu, ac adrodd yn ôl i'r Cyngor, yn ddarostyngedig i'r Cynghorydd Jones dderbyn yr enwebiad.*

## 45. <u>EITEM YCHWANEGOL: CANOLFAN GROESO'R RHYL AC AMGUEDDFA'R RHYL</u>

Cynghorodd Clerc y Dref fod Mr Peter McDermott o Gyngor Sir Ddinbych wedi gwneud cais i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref ar ganlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb ddrafft a wnaed i asesu adleoli potensial yr Amgueddfa a'r Ganolfan Groeso i un safle.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r cais a threfnu hynny ar agenda cyfarfod y Cyngor ym mis Medi.*

***<u>PENDERFYNWYD YMHELLACH</u>*** *y byddai Clerc y Dref yn gofyn i Mr McDermott am adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod, er mwyn galluogi'r aelodau i ystyried y wybodaeth a pharatoi unrhyw gwestiynau neu sylwadau priodol i'w trafod yn y cyfarfod.*

## 46. <u>EITEM YCHWANEGOL: SIR DDINBYCH FFYNIANNUS</u>

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn neges e-bost gan Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn i'r Cyngor Tref benodi cynrychiolydd i fod yn aelod o grŵp ffocws i ddatblygu dealltwriaeth am y materion sy'n wynebu canol trefi er mwyn hysbysu'r Strategaeth Economaidd ddiwygiedig dan yr amcan Sir Ddinbych Ffyniannus.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd J. L. McAlpine, yn ddarostyngedig fod dyddiad ac amser y cyfarfod cyntaf yn gyfleus iddi.*

**47. EITEM YCHWANEGOL: CANOLFAN GROESO'R RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn ail gais gan Mr Peter McDermott o Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried rhoi cyllid i'r Ganolfan Groeso er mwyn iddi barhau ar agor rhwng 1 Hydref 2024 a 31 Mawrth 2025.

Gofynnwyd am y swm o £16,200.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r cais i Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych y Cyngor Tref i'w ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyngor.*

**48. CYFNOD GWYLIAU MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gymeradwyo'r trefniadau i ddirprwyo Pwerau Gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â'r aelodau isod, yn ystod y cyfnod rhwng 18 Gorffennaf a 4 Medi 2024:

| | | |
|---|---|---|
| Materion dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Unrhyw fater arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r trefniadau.*

**49. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..……………………..

Dyddiad: …..……………………..